MADDOCKS (gynt THOMAS), ANN (1704 - 1727), ' y Ferch o Gefn Ydfa '.

Enw: Ann Maddocks
Ffugenw: Y ferch O Gefn Ydfa
Dyddiad geni: 1704
Dyddiad marw: 1727
Priod: Anthony Maddocks
Rhiant: Catherine Thomas (née Price)
Rhiant: William Thomas
Rhyw: Benyw
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd hi ym 1704 (bedyddiwyd 8 Mai), yn ferch i William Thomas o Gefn Ydfa, Llangynwyd, a'i wraig Catherine Price, Tynton, Llangeinwr - chwaer i Rees Price, tad yr athronydd Richard Price; priodwyd hwy 30 Mawrth 1703. Bu William Thomas farw yn 1706 (claddwyd ar 14 Mai); yn ôl y chwedl am y 'Ferch,' yr oedd wedi rhoi Ann, ei aeres, dan awdurdod cyfreithiwr o'r enw Anthony Maddocks o Gwmrisga, a gorfododd hwnnw hi i briodi ei fab ef ei hunan. Ond nid oes air am hyn yn ewyllys William Thomas. Gwir i Ann briodi Anthony Maddocks (ieu.) ar 4 Mai 1725, ac y mae eu cytundeb priodas ar gael. Bu hi farw yn 1727 (claddwyd ar 6 Mehefin). Adroddir y ffeithiau hyn yn gywir gan T. C. Evans ('Cadrawd') yn ei *Hist. of Llangynwyd*; ond plethwyd iddynt chwedl na lwyddwyd i ddod o hyd i unrhyw sail iddi, fod carwriaeth rhwng Ann a'r bardd ' Wil Hopcyn '), iddo ganu iddi'r gân enwog ' Bugeilio'r Gwenith Gwyn,' ac iddi hithau farw o dor calon. Ymdriniwyd yn drwyadl â'r chwedl hon yn *Y Llenor*, 1927 a 1928, gan G. J. Williams - gweler hefyd ei lyfr, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg*, 251-9.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Darllen Pellach

Louvain Rees, Behind The Folk Tale: The Maid Of Cefn Ydfa

Erthygl Wicipedia: Ann Maddocks

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu